WELSH NATIONAL OPERA
CENEDLAETHOL CYMRU

# PROFIADAU ANHYGOEL

## gyda'ch cwmni opera cenedlaethol



welshnationalopera | @wnotweet | welshnationalopera | @WNOtweet

# Ein stori

**Sefydlwyd Opera Cenedlaethol Cymru yng nghalon De Cymru yn 1943.**

O freuddwyd gan y gymuned leol, rydym wedi tyfu'n Gwmni gydag enw da ledled y byd, gyda gwreiddiau cadarn yn yr ardaloedd niferus a wasanaethwn ar hyd a lled Cymru, Lloegr a'r byd.

Ein nod yw i ysbrydoli a grymuso gyda'n cerddoriaeth a'n brwdfrydedd; cyfrannu at fywyd cerddorol, diwylliannol ac addysgol ein cymunedau; ac ychwanegu at enw da rhyngwladol Cymru fel 'Gwlad y Gân'.

Rydym yn credu bod gan opera'r pŵer i newid bywydau. Gan adeiladu ar ein 75 mlynedd o hanes, rydym yn parhau i annog y genhedlaeth nesaf o dalent a chynnig profiadau trawsnewidiol drwy ein cynigion amrywiol ar y llwyfan, ac oddi arno.









# Ar eich llwyfan

**O berfformiadau opera mawreddog i gyngherddau cerddorfaol a sioeau i'r teulu, fe ddewch o hyd i ni mewn lleoliad yn eich ardal chi drwy gydol y flwyddyn.**

Storïau gwych, cerddoriaeth ysblennydd a pherfformwyr anhygoel...Rydym yma i rannu hud y byd opera a cherddoriaeth glasurol drwy gyfrwng ein calendr artistig prysur. Rydym wedi ymrwymo i wneud ein perfformiadau mor hygyrch â phosibl, o gynnig is-deitlau Cymraeg a Saesneg i deithiau cyffwrdd, disgrifiadau sain ac arwyddo BSL.*

Yn darparu perfformiadau o'r radd flaenaf ac yn ffurfio asgwrn cefn cerddorol ac artistig y Cwmni mae Corws WNO a Cherddorfa WNO.

*Ar gael mewn perfformiadau penodol

# Yn eich cymuned

**O addysg a gwaith ieuenctid i iechyd, lles a gofal cymdeithasol, rydym yn credu mewn profiadau ar y cyd a chreu celfyddyd gyda'n gilydd.**

Rydym yn tanio dychymyg a chreadigrwydd disgyblion drwy weithdai mewn ysgolion, cyngherddau am ddim i ysgolion a phrofiadau synhwyraidd i fyfyrwyr sydd ag anawsterau dysgu dwys a lluosog ac yn rhoi hwb i hyder addysgwyr gyda'n Dyddiau DPP i Athrawon.

Ar gyfer y perfformwyr ifanc yn ein plith, mae Opera Ieuenctid WNO yn fan perffaith i'ch cynorthwyo i ddod o hyd i'ch llais, datblygu eich sgiliau perfformio, a chreu cyfeillgarwch am byth yr un pryd.

Mae gennym hefyd nod o godi ymwybyddiaeth a chyfoethogi bywydau drwy bŵer cerddoriaeth yn ein gwaith iechyd, o'n grŵp pontio cenedlaethau seiliedig ar ddementia, Côr Cysur, i'n rhaglen anadlu a chanu, Lles gyda WNO.








## Cadwch mewn cysylltiad

Byddem wrth ein bodd yn anfon gwybodaeth atoch am ddigwyddiadau, newyddion, cipolwg tu ôl i lenni WNO a manylion ar sut i'n cefnogi ni.

Ymunwch a'n cylchlythyr ar
**wno.org.uk/cylchlythyr**

**Dan 35 oed ac yn mwynhau cerddoriaeth fyw?**

Ymunwch â **Blas ar Opera** am ddim i gael mynediad at gynigion unigryw, gwahoddiadau, cynnwys digidol a mwy.

**wno.org.uk/blasaropera**



# Ar gyfer eich dyfodol

**Rydym yma i dywys sêr y dyfodol.**

Os ydych wedi graddio'n ddiweddar, yn arbenigo mewn unrhyw faes perfformio llais, efallai mai ein rhaglen Artist Cyswllt fydd y cam perffaith nesaf i chi. Byddwch yn derbyn hyfforddiant o'r radd flaenaf, cymorth drwy gydol y flwyddyn a chyfleoedd i berfformio mewn operâu, cyngherddau a gwaith cymunedol.

Rydym yn cynnig ystod o gynlluniau gwahanol, hyd yn oed oddi ar y llwyfan, o interniaethau llais i leoliadau gwaith myfyrwyr, profiad gwaith a chyfleoedd i berfformio gyda Cherddorfa WNO drwy ein prosiect Ochr-yn-Ochr.

Rydym yn buddsoddi mewn datblygu gyrfaoedd ac anelu at lwyddiant.

## Cefnogwch ni

Am ffyrdd i gefnogi ni ac i sicrhau dyfodol opera a cherddoriaeth fyw i bawb, ewch i **wno.org.uk/cyfrannu**



Supported by The National Lottery® through the Arts Council of Wales
Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol trwy Gyngor Celfyddydau Cymru
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
LOTTERY FUNDED Supported using public funding by ARTS COUNCIL ENGLAND

**wno.cymru**

Rhif Elusen Gofrestredig 221538

Lluniau gan Richard Hubert Smith, Kirsten McTernan, Johan Persson a WNO